

Cyngor Blaenau Gwent **Cymorth a** **Chyngor Ariannol** **ar Gostau Byw**



Cynnwys

Taliadau Cymorth y Llywodraeth	1 - 5
Help gyda Chostau Ynni	6 - 11
Help gyda Tai	12 - 14
Budd-daliadau y gallech fod a hawl iddynt	15
Mynediad i Fwyd	16
Help gyda'r diwrnod ysgol	17 - 18
Taliadau cymorth arall	20 - 28
Cymorth a chyngor arall	29 - 30

Mae costau byw yn cynyddu'n gyflym ac mae prisiau yn cynyddu mwy nag ar unrhyw amser ers y 1970au. Mae hyn yn cynnwys biliau ynni, bwyd, tanwydd a mwy. Yn y llyfryn hwn rydym wedi ceisio cyfuno gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael i helpu llacio cost heriau byw sy'n wynebu llawer o aelwydydd lleol.

Mae amrywiaeth o fesurau ar gael i helpu pobl i gynyddu eu hincwm i ateb costau byw hanfodol, fodd bynnag efallai nad yw bob amser yn rhwydd gwybod pa gymorth sydd ar gael na sut i wneud cais ac fel canlyniad, mae llawer o fudd-daliadau yn mynd heb eu hawlio.

Peidiwch â chymryd yn ganiataol eich bod yn cael popeth mae gennych hawl iddo, holwch bob amser, ac os ydych yn dal mewn anawsterau neu yn ansicr, cysylltwch â ni.

Taliadau Cymorth y Llywodraeth

Taliad Unigol Costau Byw i Bensiynwyr

Pwy sy'n gymwys?

Pobl 66 oed neu drosodd, rhwng 19 a 25 Medi 2022.

Faint fyddaf i yn ei gael?

£300

Sut y byddaf yn ei dderbyn?

Yn awtomatig, drwy Ddebyd Uniongyrchol mae'n debyg.

Pryd fyddaf yn ei gael?

Tachwedd / Rhagfyr 2022

I gael mwy o wybodaeth ewch i: <https://www.gov.uk/guidance/cost-of-living-payment#pensioner-cost-of-living-payment>



Taliad Costau Byw

Pwy sy'n gymwys?

- Pob aelwyd sy'n derbyn o leiaf un o'r budd-daliadau hyn:
- Credyd Pensiwn
- Credyd Cynhwysol
- Lwfans Ceiswyr Gwaith seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cysylltiedig ag incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant

Faint fyddaf i yn ei gael?

£650

Sut y byddaf yn ei dderbyn?

Yn awtomatig yn y cyfrif lle caiff eich budd-dal ei dalu. Byddwch yn ei dderbyn mewn 2 randaliad.

Pryd fyddaf i yn ei gael?

Rhandaliad cyntaf ym mis Gorffennaf, ail randaliad ym mis Tachwedd 2022 I gael mwy o wybodaeth ewch i <https://www.gov.uk/guidance/cost-of-living-payment>

Taliad Costau Byw Anabledd

Pwy sy'n gymwys?

Mae'n rhaid i chi fod wedi derbyn taliad (neu'n derbyn taliad yn ddiweddarach) o un o'r budd-daliadau cymhwyso isod ar gyfer 25 Mai 2022:

- Lwfans Gweini
- Lwfans Gweini Cyson
- Lwfans Byw Anabledd ar gyfer Oedolion
- Lwfans Byw Anabledd ar gyfer Plant
- Taliad Annibyniaeth Personol
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
- Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel

Faint fyddaf i yn ei gael?

£150

Pryd fyddaf i yn ei gael?

Caiff taliadau eu gwneud yn awtomatig i'r cyfrif lle'r ydych yn derbyn eich budd-dal cymhwyso.

Pryd y gwneir y taliadau?

O 20 Medi 2022. Caiff y rhan fwyaf o daliadau eu gwneud erbyn dechrau mis Hydref 2022. I gael mwy o wybodaeth ewch i www.gov.uk/guidance/cost-of-living-payment#disability-cost-of-living-payment

Help gyda Chostau Ynni

Gwarant Pris Ynni

Yng ngoleuni'r cynnydd diweddar yng nghost nwy cyfanwerthu, bu cynnydd sylweddol yn y pris mae cyflenwyr yn ei godi fesul uned o ynni.

I helpu diogelu defnyddwyr, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'r Warrant Pris Ynni a ddaw i rym ar 1 Hydref 2022.

Bydd y cynllun newydd hwn yn gostwng cost uned o drydan a nwy fel bod aelwyd gyda defnydd ynni cyfartalog ym Mhrydain Fawr yn talu, ar gyfartaledd, tua £2,500 y flwyddyn ar eu bil ynni am y 6 mis nesaf.

Ar gyfer cwsmeriaid unigol, bydd y swm a delir dan y Warrant Pris Ynni yn amrywio yn dibynnu ar faint o ynni y maent yn ei ddefnyddio, lle maent yn byw, sut y talant am eu hynny a'u trefniadau mesurydd. Mae'r ffigur o £2,500 yn seiliedig ar aelwyd gyda defnydd nodweddiadol ar fil deuol trydan a nwy yn talu drwy ddebyd uniongyrchol.



Help gyda Chostau Ynni

Taliad Tanwydd y Gaeaf

Pwy sy'n gymwys?

Pobl a gafodd eu geni cyn 25 Medi 1956.

Faint fyddaf yn ei gael?

£250 - £600 (yn amrywio yn dibynnu ar eich amgylchiadau).

Sut y byddaf yn ei dderbyn?

Yn awtomatig, os ydych wedi derbyn hyn o'r blaen. Caiff ei dalu yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc. Bydd angen i chi wneud hawliad os nad ydych wedi ei dderbyn o'r blaen.

Pryd fyddaf i yn ei gael?

Rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Rhagfyr 2022, os ydych wedi derbyn y taliad o'r blaen. Bydd angen hawliad os NAD ydych wedi ei dderbyn o'r blaen Er mwyn gwneud cais, cliciwch y dilynol sy'n rhoi manylion sut i wneud hawliad, <https://www.gov.uk/winter-fuel-payment/how-to-claim>



Help gyda Chostau Ynni

Gostyngiad Cartref Cynnes

Pwy sy'n gymwys?

Mae 2 ffordd i gymhwyso:

- Cewch elfen Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn
- Rydych ar incwm isel ac yn cyflawni meini prawf eich cyflenwr ynni ar gyfer y cynllun.

Faint fyddaf i yn ei gael?

£140

Sut fyddaf i yn ei dderbyn?

Mae'n ostyngiad unwaith yn unig ar eich bil trydan.

Mesuryddion blaen-dalu neu talu-wrth-fynd – os yw'ch cais yn llwyddiannus, gall eich cyflenwr trydan ddweud wrthy'ch sut y byddwch yn derbyn y gostyngiad, er enghraifft, taleb.

Pryd fyddaf i yn ei gael?

Os yw'ch cais yn llwyddiannus, bydd eich cyflenwr trydan yn rhoi'r gostyngiad ar eich bil erbyn 31 Mawrth 2023.

I gael mwy o wybodaeth a manylion sut i wneud cais

Evch i <https://www.gov.uk/the-warm-home-discount-scheme>

Galwch heibio un o'n Hybiau Cymunedol os ydych angen cymorth i wneud cais. Cliciwch ar y ddolen ddilynol i gael manylion yr amserau agor <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs>

Help gyda Chostau Ynni

Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf Cymru

Pwy sy'n gymwys?

Mae pobl sy'n gyfrifol am dalu biliau ynni cartref ac yn derbyn un o'r budd-daliadau dilynol rhwng 1 Medi 2022 – 31 Ionawr 2023:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisiwr Gwaith seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Credyd Cynhwysol
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant
- Credyd Pensiwn
- Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)
- Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)
- Lwfans Gweini
- Lwfans Gofalwyr
- Lwfans Ceisiwr Gwaith seiliedig ar gyfraniadau/math newydd
- Lwfans Cyflogaeth a Cymorth seiliedig ar gyfraniadau/math newydd
- Taliad Annibyniaeth Lluoedd Arfog
- Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel
- Cynllun Gostwng y Dreth Gyngor
- Lwfans Gweini Cyson

NEU os nad ydych yn derbyn un o'r budd-daliadau cymhwyso uchod ond bod rhywun sy'n byw gyda chi yn derbyn un o'r isod rhwng 1 Medi 2022 – 31 Ionawr 2023:

- Lwfans Gweini
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Taliad Annibyniaeth Personol
- Taliad Annibyniaeth Lluoedd Arfog
- Lwfans Gweini Cyson
- Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel

Faint fyddaf i yn ei gael?

£200

Sut y byddaf yn ei dderbyn?

Os ydych wedi gwneud cais yn ddiweddar ac wedi derbyn y Taliad Cymorth Costau Byw, caiff ei dalu yn awtomatig i'ch cyfrif. Os na, roedd y ceisiadau'n agor ar 26 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 28 Hydref 2023.

Pryd fyddaf yn ei gael?

Hydref / Gaeaf 2022/2023

I gael mwy o wybodaeth, ewch i <https://gov.wales/wales-winter-fuel-support-scheme-2022-2023>

Help gyda Chostau Ynni

Cynllun Cymorth Costau Ynni

Pwy sy'n gymwys?

Pob person sydd â chyfrif trydan domestig.

Sut fyddaf i yn ei gael?

£400

Sut y byddaf yn ei dderbyn?

Yn awtomatig gan eich cyflenwr yn dibynnu ar sut ydych yn talu.

*Mesurydd blaendalu - bydd eich cyflenwr yn ychwanegu credyd o £400 i'r mesurydd neu'n rhoi taleb i chi *Debyd Uniongyrchol neu'n talu biliau chwarterol - bydd eich cyfrif trydan yn derbyn credyd o £400.

Pryd y byddaf yn ei gael?

Caiff y taliad cyntaf ei ddsbarthu o fis Hydref 2022 a chaiff wedyn ei ledaenu dros chwe mis, yn hytrach nag mewn un cyfandaliad i helpu lliniaru cynnydd prisiau ynni cyfredol a'r dyfodol. Ym mis Hydref a mis Tachwedd, bydd cyflenwyr ynni yn rhoi gostyngiad o £66 ar filiau ynni aelwydydd. Bydd hyn wedyn yn codi i £67 y mis o fis Rhagfyr 2022 i fis Mawrth 2023. I gael mwy o wybodaeth, ewch i <https://www.gov.uk/guidance/getting-the-energy-bills-support-scheme-discount>

Help gyda Chostau Ynni

Grant Cyn Lowyr

Pwy sy'n gymwys?

Cyn lowyr, neu eu partneriaid, y dynodir eu bod yn neilltuol o fregus oherwydd eu bod ar incwm isel, yn byw yn eu cartref eu hunain ac yn gyfrifol am dalu costau ynni. Dim ond i'r dilynol mae ar gael:

- Rhai sydd â deng mlynedd o wasanaeth yn y diwydiant neu
- Rhai yr oedd eu man gwaith diwethaf yn y diwydiant

Faint fyddaf i yn ei gael?

£200. Dim ond un grant sydd ar gael i bob aelwyd.

Sut mae gwneud cais i?

Mynd i: www.ciswo.org.uk **Ffonio:** 01506 635 550

Galwch heibio un o'n Hybiau Cymunedol os ydych angen cymorth i wneud cais. Cliciwch y ddolen i gael manylion amserau agor **www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs**



Budd-dal Tai

Pwy sy'n gymwys?

Gall Budd-dal Tai eich helpu i dalu eich rhent os ydych yn ddi-waith, ar incwm isel neu'n hawlio budd-daliadau. Mae'r Credyd Cyflwyno yn dod yn ei le.

Dim ond yn un o'r amgylchiadau dilynol y gallwch wneud hawliad newydd am Fudd-dal Tai:

- Eich bod wedi cyrraedd oedran pensiwn gwladol
- Eich bod yn byw mewn tai â chymorth, tai gwarchod neu gartref dros dro.

Faint fyddaf i yn ei gael?

Gallwch gael help gyda'r cyfan neu ran o'ch rent. Bydd yn dibynnu ar:

- Eich rent 'cymwys' neu gyfradd Lwfans Tai Lleol
- Incwm eich aelwyd yn cynnwys budd-daliadau, pensiynau a chynilion (dros £6,000).

Sut mae hawlio?

Ewch i Budd-daliadau Ar-lein | CBS Blaenau Gwent
(blaenau-gwent.gov.uk)

Cyswllt: 01495 353398

E-bost: benefits@blaenau-gwent.gov.uk

Gostyngiad y Dreth Gyngor

Pwy sy'n gymwys?

Gallech fod yn gymwys am Ostyngiad y Dreth Gyngor os ydych ar incwm isel neu'n derbyn rhai budd-daliadau ac yn atebol i dalu'r Dreth Gyngor.

Faint fyddaf i yn ei gael?

Gall faint o ostyngiad y Dreth Gyngor a gewch yn dibynnu ar lawer o ffactorau:

- Pa fudd-daliadau yr ydych yn eu derbyn
- Eich oedran
- Eich incwm a'ch cynilion
- Faint o dreth gyngor a dalwch

Sut mae hawlio?

Ewch i Budd-daliadau Ar-lein | CBS Blaenau Gwent (blaenau-gwent.gov.uk)

Cyswllt: 01495 353398

E-bost: benefits@blaenau-gwent.gov.uk

Taliad Tai Dewisol

Pwy sy'n gymwys?

Os ydych yn derbyn Budd-dal Tai neu Elfen Tai Credyd Cynhwysol, ond yn dal ei chael yn anodd talu eich rhent, gallwch wneud cais am Daliad Tai Dewisol.

Sut mae'n gweithio?

Gallwch wneud cais am Daliad Tai Dewisol i'ch helpu talu eich rhent os:

- Ydych yn derbyn Budd-dal Tai.
- Yw eich Budd-dal Tai yn is na'r rhent llawn llai unrhyw wasanaethau na fedrir talu Budd-dal Tai ar eu cyfer tebyg i gostau gwresogi neu drethi dŵr.
- Os oes amgylchiadau arbennig sy'n golygu na fedrwch dalu'r gwahaniaeth rhwng eich budd-dal a'ch rhent llawn.

Gwneir Taliadau Tai Dewisol fel mesur tymor byr i helpu pobl tra'u bod yn gwneud ymdrechion i ddatrys eu anawsterau.

Sut mae gwneud cais?

- <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/budd-daliadau-gostyngiad-treth-gyngor/> / Rwyf eisiau'r ddolen uniongyrchol i'r ffurflen gais neu:
- Cysylltu â'r Tîm Budd-daliadau Tai ar 01495 353398, neu
- E-bost: benefits@blaenau-gwent.gov.uk

I gael mwy o wybodaeth ewch <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/benefits-council-tax-reduction-dhp/discretionary-housing-payments/>

Budd-daliadau y gallech fod a hawl iddynt

Credyd Cynhwysol

Pwy sy'n gymwys?

Gallech fedru cael Credyd Cynhwysol os ydych ar incwm isel neu angen help gyda'ch costau byw. Gallech fod:

- Allan o waith
- Yn gweithio (yn cynnwys hunangyflogedig neu ran-amser)
- Yn methu gweithio, er enghraifft oherwydd cyflwr iechyd.

I hawlio mae'n rhaid i chi fod:

- Yn byw yn y Deyrnas Unedig
- Yn 18 oed neu drosodd (mae rhai eithriadau)
- Dan oedran pensiwn gwladol
- â £16,000 neu lai mewn arian, cynilion a buddsoddiadau.

Faint fyddaf i yn ei gael?

Mae'r swm o Credyd Cynhwysol y gallech ei dderbyn yn dibynnu ar:

- Eich lwfans safonol
- Unrhyw symiau ychwanegol sy'n berthnasol i chi
- Unrhyw arian a dynnir o'ch taliad

Pryd fyddaf i yn ei gael?

Caiff ei dalu bob mis ac mae'n seiliedig ar eich amgylchiadau bob mis.

I gael mwy o wybodaeth ewch i www.gov.uk/universal-credit

Mynediad i Fwyd

Y Banc Bwyd

Ymddiriedolaeth Trussell sy'n rhedeg y rhwydwaith mwyaf o fanciau bwyd ym Mhrydain, gan roi bwyd a chymorth i bobl sydd mewn argyfwng.

Maent yn gweithio gydag asiantaethau lleol er mwyn rhoi'r help mwyaf addas ar gyfer eich amgylchiadau.

Sut i gael help?

Gallwch ffonio neu anfon e-bost at y Banc Bwyd lle gallwch drafod eich sefyllfa a byddant yn eich rhoi mewn cysylltiad gyda'r asiantaeth leol berthnasol.

Ffôn: 07812425130 **E-bost:** info@blaenaugwent.foodbank.org.uk

Beth fyddaf i yn ei gael?

Lle'n briodol, cewch Daleb Banc Bwyd. Bydd angen i chi fynd â'ch taleb Banc Bwyd i'r Canolfan Banc Bwyd agosaf. Mae rhestr o'r canolfannau lleol ac amserau agor ar gael yma: [Lleoliadau | Banc Bwyd Blaenau Gwent](#). Caiff eich taleb wedyn ei chyfnwid am barsel o 3 diwrnod o fwyd argyfwng.

I gael mwy o wybodaeth ewch i [Banc Bwyd Blaenau Gwent | Helpu Pobl Leol mewn Argyfwng](#)

Prydau Ysgol am Ddim

Pwy sy'n gymwys?

Gall eich plentyn gael prydau ysgol am ddim os ydych yn derbyn unrhyw un o'r dilynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisiwr Gwaith seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a chymorth cysylltiedig ag incwm
- Cymorth dan Ran Vi Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Credyd Treth Plant (gydag incwm blynyddol dan £16,190)
- Elfen gwarant y Credyd Pensiwn
- Ychwanegiad Credyd Treth Gwaith – caiff ei dalu am 4 wythnos ar ôl i chi beidio bod yn gymwys am y Credyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol gydag incwm aelwyd net o lai na £7,400 (£616.67 y mis)

Sut mae gwneud cais?

Nid oes angen i chi lenwi ffurflen arall os ydych yn derbyn Budd-dal Tai neu ostyngiad Treth Gyngor. Cysylltwch â'r Adran Budd-daliadau os yw eich plentyn yn dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf NEU os nad yw'ch plentyn yn derbyn prydau ysgol am ddim ond rydych chi'n credu y dylai fod yn eu cael.

Ffôn: 01495 353398 **E-bost:** benefits@blaenau-gwent.gov.uk

Grant Gwisg Ysgol

Pwy sy'n gymwys?

- Gall dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ar hyn o bryd wneud cais am y grant.
- Bydd pob plentyn sy'n derbyn gofal yn gymwys am y grant, p'un ai ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim ai peidio.
- Dim ond unwaith y gall teuluoedd hawlio ar gyfer pob plentyn ym mhob blwyddyn ysgol.

Faint?

£300 ar gyfer y dysgwyr sy'n dechrau ar flwyddyn 7. £225 y flwyddyn.

Sut mae gwneud cais?

Mae'r cynllun ar agor rhwng 1 Gorffennaf 2022 a bydd yn gorffen ar 30 Mehefin 2023.

Gwnewch gais ar-lein yn <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/schools-learning/school-uniform-grant> os:

- Yw eich plentyn yn gymwys am brydau ysgol am ddim ac
- Os nad yw'ch plentyn eisoes wedi derbyn grant gwisg ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol gyfredol 2022/2023

I gael mwy o wybodaeth **E-bost:** benefits@blaenau-gwent.gov.uk

Ffôn: 01495 353398



Swyddfeydd Cyffredinol, Heol Gwaith Dur, Glynebwy, NP23 6DN

Taliadau Cymorth Eraill

Cynllun Cymorth Dyled Cronfa Cymorth Cwsmeriaid

Cynlluniwyd y cynllun hwn i helpu'r rhai sydd mewn caledi ariannol difrifol i glirio a chael trefn ar eu taliadau.

Pwy sy'n gymwys?

Gallech fod yn gymwys os:

1. Yw eich cyfrif dŵr ar gyfer eiddo domestig lle'r ydych yn byw ar hyn o bryd.
2. Os oes gennych fwy na £150 yn ddyledus.

Sut mae'n gweithio?

- Os yw eich cais yn llwyddiannus, bydd Dŵr Cymru yn paratoi cynllun talu bob mis, bythefnos neu wythnos ar gyfer costau'r flwyddyn bresennol,
- Unwaith y gwnaethoch daliadau am 6 mis, bydd Dŵr Cymru yn talu 50% o'ch dyled flaenorol.
- Os gwnewch daliadau am 6 mis arall, bydd Dŵr Cymru yn talu gweddill eich ôl-ddyledion blaenorol.

Sut mae gwneud cais?

Ewch i <https://www.dwrcymru.com/en/support-with-bills/customer-assistance-fund>

Galwch heibio un o'n Hybiau Cymunedol os ydych angen cymorth i wneud cais. Cliciwch ar y ddolen i gael manylion amserau agor <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs/>

Taliadau Cymorth Eraill

Cynllun Cymorth Debyd Uniongyrchol Dŵr

Os ydych mewn caledi ariannol ac mewn dyled i Dŵr Cymru gall y cynllun hwn helpu drwy dalu eich costau a'ch dyled am ddŵr drwy eich budd-dal.

Pwy sy'n gymwys?

Gallech fod yn gymwys os:

1. Yw eich cyfrif dŵr am eiddo domestig lle'r ydych yn byw ar hyn o bryd.
2. Yw eich ôl-ddyledion yn fwy na £75
3. Ydych yn derbyn un o'r budd-daliadau dilynol:
 - Credyd Pensiwn
 - Credyd Cynhwysol
 - Cymhorthdal Incwm
 - Lwfans Ceisiwr Gwaith seiliedig ar incwm
 - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (seiliedig ar incwm)

Sut mae'n gweithio?

Mae Dŵr Cymru yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gynnig yr opsiwn i dalu eich costau dŵr drwy eich budd-daliadau.

Mae hyn yn golygu:

- Dim colli taliadau
- Dim gweithredu i adennill dyledion
- Mae'n gyfleus gan y caiff y taliad ei dynnu'n awtomatig o'ch budd-dal.

Bydd Dŵr Cymru hefyd yn rhoi disgownt o £25 i chi ar gostau'r flwyddyn bresennol.

Sut mae gwneud cais?

Ewch i <https://www.dwrcymru.com/en/support-with-bills/water-direct-scheme> Galwch heibio un o'n Hybiau Cymunedol os ydych angen cymorth i wneud cais. Cliciwch y ddolen i gael manylion amserau agor <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs/>

Taliadau Cymorth Eraill

Tariff HelpU

Mae tariff HelpU yn helpu aelwydydd incwm isel drwy roi uchafswm ar y swm y mae'n rhaid i chi ei dalu am ddŵr.

Pwy sy'n gymwys?

Gallech fod yn gymwys yw:

1. Eich cyfrif dŵr am eiddo domestig lle'r ydych yn byw ar hyn o bryd.
2. Mae'n rhaid i incwm blynyddol cyfunol yr aelwyd fod ar neu'n is na'r trothwy (1 person - £9,700, 2 o bobl - £14,600, 3+ o bobl £16,100).
3. Mae'n rhaid i rywun yn yr aelwyd fod yn derbyn o leiaf un budd-dal prawf modd
 - Credyd Pensiwn
 - Budd-dal Tai
 - Credyd Cynhwysol
 - Credyd Treth Gwaith
 - Credyd Treth Plant (heblaw teuluoedd sy'n derbyn yr elfen teulu yn unig)
 - Cymhorthdal Incwm
 - Lwfans Cymorth Cyflogaeth cysylltiedig ag incwm
 - Lwfans Ceiswyr Gwaith (JSA) seiliedig ar incwm

Sut mae'n gweithio?

Os ydych yn gymwys bydd Dŵr Cymru yn rhoi uchafswm ar eich bil dŵr fel na fyddwch yn talu dros swm neilltuol am y flwyddyn. Os oes gennych fesurydd dŵr, ni fyddwch byth yn talu mwy na'r swm yr ydych wedi ei ddefnyddio. os yw eich defnydd yn llai nag uchafswm HelpU dim ond am faint o ddŵr yr ydych wedi ei ddefnyddio y cewch eich bilio.

Faint fyddaf i yn ei gael?

Mae'r tâl yn £266.47. (£114.98 ar gyfer dŵr, £151.49 ar gyfer carthffosiaeth).

Sut mae gwneud cais?

Ewch i <https://www.dwrcymru.com/en/support-with-bills/helpu-tariff> Galwch heibio un o'n Hybiau Cymunedol os ydych angen cymorth i wneud cais. Cliciwch y ddolen i gael manylion amserau agor <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs/>

Taliadau Cymorth Eraill

Terfyn Biliau – Tariff WaterSure Cymru

Os oes gennych fesurydd eisoes, neu wedi gofyn am un, mae Terfyn Biliau - tariff WaterSure Cymru yn gosod terfyn ar y swm y mae'n rhaid i chi ei dalu am ddŵr.

Pwy sy'n gymwys?

Mae'n rhaid i chi fod â mesurydd dŵr neu'n dewis cael mesurydd wedi ei osod. Mae'n rhaid i chi fod yn derbyn budd-dal sy'n cymhwyso neu gredyd treth a naill ai â:

1. 3 neu fwy o blant dan 19 oed yn byw yn eich cartref y gallwch hawlio budd-dal plant ar eu cyfer, neu
2. Ag aelod o'ch aelwyd gyda chyflwr meddygol sydd angen defnydd sylweddol o ddŵr ychwanegol.

Y budd-daliadau sy'n cymhwyso yw:

- Credyd Pensiwn
- Budd-dal Tai
- Credyd Cynhwysol
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant (heblaw teuluoedd sy'n derbyn yr elfen teulu yn unig)
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cysylltiedig ag incwm
- Lwfans Ceiswyr Gwaith (JSA) seiliedig ar incwm
- Lwfans Gweini
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)

Taliadau Cymorth Eraill

Mae'r cyflyrau meddygol yn gyflyrau cyffredin sydd angen cryn dipyn o ddŵr ychwanegol a gallant gynnwys:

- Digeniad (clefyd croen haenog)
- Croen diferol (ecsema, psoriasis, wlserau chwyddedig)
- Anatymalrwydd
- Stoma abdomenol
- Clefyd Crohn
- Methiant yr arennau sydd angen dialysis cartref (heblaw lle mae'r awdurdod yn cyfrannu at gost y dialysis)

Gallwch roi gwybodaeth ar eich ffurflen gais os na chafodd eich cais ei restru.

Sut mae'n gweithio?

Bydd terfyn ar eich bil mesurydd blaenorol fel nad ydych yn talu mwy na swm neilltuol am y flwyddyn, faint bynnag o ddŵr a ddefnyddiwyd.

Faint fyddaf i yn ei gael?

Y tâl o 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023 yw £374.01 (£157.50 am ddŵr, £216.51 am garthffosiaeth).

Sut mae gwneud cais?

Gallwch argraffu ffurflen gais o wefan Dŵr Cymru a'i hanfon yn uniongyrchol yn y post at Dŵr Cymru i asesu os ydych yn gymwys. Ewch i **Tariff Terfyn Bil - WaterSure Cymru | Dŵr Cymru Welsh Water** (dwrcymru.com)

Galwch heibio un o'n Hybiau Cymunedol os ydych angen cymorth i wneud cais. Cliciwch y ddolen i gael manylion amserau agor **www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs**

Taliadau Cymorth Eraill

Cronfa Cymorth Dewisol

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn darparu dau fath o grant nad yw'n rhaid i chi ei ad-dalu:

- Taliad Cymorth Argyfwng
- Taliad Cymorth Unigol



Taliadau Cymorth Eraill

Taliad Cymorth Argyfwng

Pwy sy'n gymwys?

- I fod â hawl i'r grant hwn, mae'n rhaid i chi fod:
- Mewn caledi ariannol, er enghraifft wedi gwneud cais am fudd-daliadau ac yn aros am eich taliad cyntaf neu heb unrhyw arian i brynu bwyd, nwy a thrydan
- Mewn sefyllfa argyfwng ac angen cymorth ariannol yn syth
- Yn byw yng Nghymru
- Dros 16 oed
- Heb unrhyw arian arall, er enghraifft cynilon, ac wedi ystyried pob benthycydd cyfreithiol a chyfrifol tebyg i undebau credyd.

Am beth y gellir defnyddio'r taliad?

- Bwyd,
- Nwy a thrydan,
- Teithio argyfwng
- Dillad

Faint fyddaf i yn ei gael?

Mae'n dibynnu ar yr amgylchiadau

Sut fyddaf i yn ei gael?

- Taleb PayPoint neu daliad BACS
- Talebau i'ch helpu i brynu dillad

Pryd fyddaf i yn ei gael?

Mae'n cymryd 24 awr i brosesu ceisiadau (a wneir dydd Llun i ddydd Gwener). Os gwnewch gais ar ôl 12pm ar ddydd Gwener, ni chysylltir â chi tan y dydd Llun dilynol.

Ni fedrwch wneud cais am grant os ydych eisoes wedi:

- Derbyn grant yn y 28 diwrnod diwethaf
- Derbyn 3 grant yn barod yn y flwyddyn ddiwethaf (5 grant yn cynnwys ceisiadau coronafeirws)

Taliadau Cymorth Eraill

Taliad Cymorth Unigol

Pwy sy'n gymwys?

Mae'n rhaid i chi:

- Fod yn byw yng Nghymru
- Bod dros 16 oed
- Bod heb fynediad i arian arall ac wedi ceisio pob ffnhonnell fforddiadwy o gyllid, er enghraifft Undeb Credyd
- Peidio bod yn byw mewn cartref gofal (os na chewch eich rhyddhau mewn 6 wythnos)
- Peidio bod mewn carchar (os na chewch eich rhyddhau mewn 6 wythnos)
- Peidio bod yn aelod o drefn grefyddol cynhaliaeth lawn.

Mae'n rhaid i chi hefyd fod yn cael un o'r dilynol:

- Elfen Gwarant Credyd y Credyd Pensiwn
- Credyd Cynhwysol
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisiwr Gwaith seiliedig ar incwm

Mae'n rhaid i chi ateb un o'r dilynol:

- Gadael cartref gofal neu sefydliad (ysbyty, carchar neu ofalwr maeth) ar ôl o leiaf 3 mis i fyw yn annibynnol.
- Eisiau dal i fyw yn y gymuned yn hytrach na gorfod mynd i sefydliad neu gartref gofal).
- Sefydlu cartref ar ôl byw mewn ffordd ansefydlog.
- Angen symud cartref yn gyflym oherwydd chwalfa perthynas neu drais domestig.
- Mynd i ofalu am garcharor neu droseddwr ifanc a gaiff ei ryddhau ar drwydded dros dro.

Faint fyddaf i yn ei gael?

'Nwyddau gwyn' eraill tebyg i oergell, ffwrn neu beiriant golchi gan AO Retail Limited. Celfi cartref tebyg i welyau, soffas a chadeiriau gan The Furnishings Service (TFS).

Pryd fyddaf i yn ei gael?

Bydd yn cymryd 10 diwrnod gwaith i brosesu ceisiadau. Cewch alwad ffôn, neges destun neu e-bost gan y cyflenwr i drefnu dosbarthu os caiff eich cais ei gymeradwyo.

Ni allwch wneud cais am grant os ydych:

- Eisoes wedi derbyn grant yn y 28 diwrnod diwethaf
- Eisoes wedi derbyn 3 grant yn y flwyddyn ddiwethaf (5 grant) yn cynnwys ceisiadau coronafeirws)

Sut mae gwneud cais?

- <https://gov.wales/discretionary-assistance-fund-daf/how-apply>
- Galwch heibio un o'n hybiau cymunedol i gael cymorth i wneud cais. Cliciwch ar y ddolen ddilynol i gael manylion amserau agor: <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs/>
- Ffônio 0800 859 5924 rhwng 9:30am - 4:00pm dydd Llun i ddydd Gwener
- Drwy'r post



Cymorth a Chyngor Arall

Money Saving Expert

Mae amrywiaeth fawr o help a chyngor ar gael ar wefan MoneySavingExpert.com a sefydlwyd gan Martin Lewis.
www.moneysavingexpert.com

Sign up to receive a free weekly newsletter containing all the latest tips and advice: www.moneysavingexpert.com/latesttip

Cyngor ar Bopeth

Gall weithiau fod yn anodd delio â phroblemau arian, ond os nad ydych yn deall sut mae pethau fel credyd neu forgeisiau yn gweithio, gallech fod ar eich colled ariannol a mynd yn ddyfnach i dyled. Gall Cyngor ar Bopeth roi'r wybodaeth rydych ei hangen i wneud y dewis cywir. I ganfod mwy ewch i: www.citizensadvice.org.uk/wales/debt-and-money

Money Helper

Mae MoneyHelper ar agor i bawb a gall helpu pobl i glirio eu dyledion, gostwng gwariant a gwneud y mwyaf o'u hincwm, Rhoddant arweiniad diduedd a rhad ac am ddim am arian ac os nad ydyn nhw yn gwybod yr ateb, byddant yn eich cyfeirio at rywun sydd yn gwybod.
www.moneyhelper.org.uk/en/contact-us/money-guidance

Undebau Credyd, cynilion cymunedol lleol a benthyciadau

Mae undebau credyd yn cynnig dewis heblaw banciau a chymdeithasau adeiladu traddodiadol ar gyfrer cynilo a benthycia. Gallant weithiau roi gwell cynigion nag sydd ar gael ar y stryd fawr. Maent yn ddarparrydd cynilion cymunedol a darparrydd benthyciadau. Mae mwy o wybodaeth ar undebau credyd ar gael yn: www.moneysavingexpert.com/loans/credit-unions

Cymorth a Chyngor Arall

Cyngor Age Cymru

Mae Cyngor Age Cymru yn cynnig gwasanaeth cymorth am ddim, cyfrinachol a diduedd. Gallant helpu pobl hŷn, eu teuluoedd, ffrindiau, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol gyda gwybodaeth a chyngor ar faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn.

I ganfod mwy ffoniwch **0300 303 398** rhwng 9:00am a 4:00pm, dydd Llun i ddydd Gwener, neu e-bost advice@agecymru.org.uk.

Gofal a Thrwsio

Mae Gofal a Thrwsio yn darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau ymarferol sy'n helpu pobl hŷn yng Nghymru i aros yn ddiogel, cynnes ac iach yn eu cartrefi. Maent yn gosod cymhorthion ac addasiadau anabledd, yn cyflenwi gwasanaethau cynnal a chadw cartrefi, yn helpu i gynyddu incwm a chael mynediad i grantiau ac yn gwneud cartrefi yn ddiogel i bobl ddychwelyd iddynt o'r ysbyty.

I ganfod mwy ffoniwch 0300 111 3333. Croesawir galwadau yn y Gymraeg. Hyd yn oed os credwch nad ydych yn gymwys am gymorth ariannol fel arfer, gallech yn awr fod yn gymwys am helpo gyda chostau byw dydd i ddydd.

Cymru Gynnes

Cymorth a chyngor i unrhyw un sy'n edrych am wybodaeth neu help gydag ymholiadau am ynni cartref. <https://www.warmwales.org.uk/>

Amserau Agor Hybiau Cymunedol:

Llyfrgell Abertyleri

9am - 5pm (Dyddiau Mawrth, Iau a Gwener) **Closed:** 1pm - 2pm
10am - 5pm (Dydd Mercher) **Ar gau:** 1pm - 2pm

Llyfrgell Brynmawr

9am - 5pm (Dyddiau Llun, Mawrth, Iau a Gwener)
Ar gau: 1pm - 2pm

Llyfrgell Glynebwy

9am - 5pm (Dyddiau Llun, Mawrth, Iau a Gwener)
Ar gau: 1pm - 2pm

Llyfrgell Tredegar

9am - 5pm (Monday, Tuesday & Friday) **Closed:** 1pm - 2pm
10am - 5pm (Dydd Mercher) **Ar gau:** 1pm - 2pm

Llyfrgell Blaenau

9:30am - 5pm (Dydd Llun) **Ar gau:** 1pm - 2pm

Llyfrgell Cwm

9:30am - 5pm (Dydd Iau) **Ar gau:** 1pm - 2pm

Sefydliad Llanhilledd

10am - 5pm (Dydd Mercher) **Ar gau:** 1pm - 2pm

Ewch i: <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs/>

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Swyddfeydd Cyffredinol

Heol Gwaith Dur

Glynebwy

NP23 6DN

Ffôn: 01495 311556

Gwefan: www.blaenau-gwent.gov.uk



Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council